


## ABERYSTWYTH ARTS CENTRE CERAMIC SERIES

## CLIVE DAVIES

---

by Mary Muir

---



**C**live Davies lives in Withersdale, a tiny hamlet in Suffolk which is so small, it is not even marked on the map. Whilst giving me directions, he warned, 'If you blink, you'll miss it!'. The same certainly cannot be said for his decorated pottery, which is characterised by elegant and generous forms. Clean, white and cream glazes form a canvas for lyrical and free-flowing movement, in summer-bright colours. The result is pottery which is lively, full of movement and a joy to use, or simply to look at.

Like many potters, Clive Davies discovered his gift for the medium quite by chance. In fact, he has his pet terrapins to thank for his chosen career. He wanted to make a structure through which the terrapins could swim in their tank. A friend lent him some clay which he so enjoyed using, that he began to attend pottery evening classes at an adult education centre, in Norwich. The classes were run by Hubert Ford, a potter who gave Davies great encouragement and support over the next five years.

After this initial training, he felt ready to attempt setting up as a potter. The idea of enrolling for a full-time course in ceramics at art school held no attraction for him. He had completed National Service in the early sixties and the idea of rural self-employment and control over his own life had great and romantic appeal. An advert placed in a local paper resulted in a move from Norwich to a small cottage in Suffolk, 'in the middle of nowhere'. There, he built a workshop, bought an electric kiln and developed his skills. This self-imposed apprenticeship where success was often achieved at the expense of many mistakes, was a solid foundation upon which to build his career.

By 1970 Davies was working full-time, producing a wide range of hand-thrown stoneware domestic pottery that initially he sold locally. He developed a green celadon glaze, made largely from local clay. This quickly became his trademark and established his reputation in the field of ceramics. Influenced by the philosophy of Bernard Leach and later of Michael Cardew, he used celadon glaze for a number of years, enabling him to concentrate solely upon perfecting both technique and form. His range of work included casseroles, cups, saucers, plates, bowls, jugs, bread-crocks and even eggcups. Kitchen shops such as David Mellors provided him with an ideal and steady market and he continued to produce green kitchen pottery very successfully for another ten years.

However, by 1980 Davies decided that he needed to explore new directions in his work, which he felt was becoming too repetitive and predictable. The recession of the early eighties was also affecting pottery sales. This was a perfect opportunity to take a six-month sabbatical in the Dordogne with his family. It gave him the time to look critically at his work and think about new ideas and themes. He built a wood-fired kiln and 'just

made any shapes [he] liked', also experimenting with new glazes. The sensuality and softness of old French pickling jars and salt-glazed pottery attracted him. In contrast, his own work began to appear 'too hard, self-conscious, English and medieval'. He describes this period of his life as idyllic, and the richness of the experience obviously contributed a great deal to the new direction his work was to take.

On his return to England, an exhibition of the work of the potter, Sutton Taylor, had a significant impact upon him. The myriad 'shimmering colours' Taylor had managed to achieve, particularly excited him. In fact, it was the catalyst for the decision that colour was the way forward in his work. He wanted to create pottery with 'a linen-fresh look, something that really sparkles and sings'.

After developing a smooth, hard stoneware body and white and cream base glazes, he carried out hundreds of experiments to create coloured glazes, drawing also on two glaze recipes developed for stoneware by Janice Tchalenko. After producing the palette he required, he began to think about imagery and decoration. These would be the elements of a completely new departure. A book on American folk art inspired him to start with a simple apple motif, but today he uses a wide range of patterns and imagery, and when asked what influences his choice, he replies 'anything and everything'. This new concentration on decoration and colour gave him an enormous sense of liberation. However, it demanded a reduction in the range of vessels, and the simple forms of jugs, bowls, large cups and saucers proved ideal.

Davies freely acknowledges his debt to potters such as Janice Tchalenko and Sutton Taylor, whose unashamed celebration of colour has provided much inspiration in contemporary ceramics. The paintings of many artists including Emil Nolde, Bonnard, Matisse and, of course, pottery from all over the world also give him inspiration.



He uses a small gas kiln and a much larger oil-fired kiln, which is being converted to gas because he finds it a gentle, easy fuel to control. This is important since the fine, textured stoneware body he uses has to be fired very carefully. A member of the Craftsman Potters Association since 1973, he is also a member of the Suffolk Craft Society.

The two permanent retail outlets for his work are J. K. Hill and the Craftman Potters Shop in London. He also supplies regional craftshops, but laments the practice of 'sale-or-return' and the difficulties this imposes upon the craftsman.

At the moment, Davies feels that he is moving towards more 'one-off' works. He would also like to try working on a much larger scale, producing sculptural works that will enable him to develop form and his use of decoration. He has also diversified into tile production and having just completed a commission, would love the opportunity to tile a large foyer for a new building. Unlike the pottery, the tiles are not decorated. Instead he has developed a select range of warm, textured oatmeals, rich terracottas, rusts and slate-blues.

Pottery is a constant process of evolution, he explains, and he does not feel he has to be fixed in one particular idiom or style. 'Who knows, next year I might go black or silver — if something takes me down another avenue, I'm happy. There are so many things to do'. We shall await his new work with great interest.

Mary Muir 1990



## CANOLFAN Y CELFYDDYDAU GYFRES GERAMIC

CLIVE DAVIES

gan Mary Muir



**W**ithersdale, pentref bychan yn Suffolk sy'n rhy fach i gael ei enwi ar y map, yw cartref Clive Davies. Pan oedd yn rhoi cyfarwyddiadau i mi ar gyfer y daith, fe'm rhybuddiodd, 'Paid â chau dy lygaid am amraniad neu fe fyddi di wedi mynd drwyddo heb sylwi!' Yn sicr ni ellir dweud yr un peth am ei grochenwaith addurnol a nodweddir gan ffuriau cain sylweddol eu maint. Mae'r gwydreddau glân, hufen a gwyn, yn creu cynfas ar gyfer addurniadau telynegol rhwydd mewn lliwiau hafaiod disgair. Y canlyniad yw crochenwaith bywiog, llawn symud, sy'n bleser i'w ddefnyddio neu i wneud dim ond syllu arno.

Fel aml i grochenydd arall, ar ddamwain y daeth Clive Davies yn ymwybodol o'i dalent i drin y cyfrwng. Yn wir, mae'n ddyledus i'w grwbanod dŵr am ei gyfeirio at ei alwedigaeth. Pan oedd arno eisiau darparu rhywbeth i'r crwbanod nofio drwyddo yn eu tanc, caffodd fenthyg clai gan un o'i gyfeillion, a chaffodd gymaint o flas ar ei drin nes iddo benderfynu mynd i ddosbarthiadau nos ar grochenwaith yn Norwich. Roedd y dosbarthiadau yngnofal Hubert Ford, crochenydd a fu'n ei annog ac yn ei gefnogi yn ystod y pum mlynedd dilynol.

Ar ôl derbyn yr hyfforddiant cychwynnol hwn, teimlai'n barod i roi cychwyn ar ddechrau gweithio fel crochenydd. Doedd y syniad o gorfrestu ar gyfer cwrs cerameg llawn amser mewn coleg celf ddim yn apelio ato o gwbl. Roedd wedi cwblhau ei Wasanaeth Cenedlaethol yn y chwedegau cynnar ac roedd rhyw apêl ramantaidd gref yn y syniad o fod yn hunan gyflogedig ac yn feistr ar ei fywyd ei hun mewn ardal wledig. O ganlyniad i hysbysebu mewn papur lleol, symudodd o Norwich i fwthyn bychan yn Suffolk 'ymhell o bobman'. Yna, cododd weithdy a phrynu odyn drydan a bwrw ati i ddatblygu ei sgiliau. Bu'r brentisiaeth wifoddol hon, lle mai pris llwyddiant oedd mynuch gamgymeriad, yn sylfaen gadarn iddo adeiladu ei yrfa arni.

Erbyn 1970 roedd Davies yn gweithio'n llawn amser, gan gynhyrchu ystod eang o grochenwaith caled domestig wedi eu llunio ar droell, y byddai ar y cychwyn yn eu gwerthu'n lleol. Datblygodd wydredd *celadon* gwyrdd wedi ei wneud yn bennaf o glai lleol. Yn fuan daeth i gael ei adnabod am y gwydredd hwn a gwnaeth enw iddo'i hun ym maes cerameg. O dan dylanwad Bernard Leach ac, yn nes ymlaen, Michael Cardew, daliodd ati i ddefnyddio gwydredd *celadon* am nifer o flynyddoedd, a hynny'n ei alluogi i ganolbwytio ei holl sylw ar berffethio techneg a ffurf. Roedd ystod ei waith yn cynnwys caserolau, cwpauau, soseri, platiau, bowlenni, jygiau, llestri bara a hyd yn oed gwanpanau wy. Roedd siopau cegin megis David Mellors yn darparu marchnad gyson a delfrydol ar gyfer ei gynnrych, a daliodd i gynhyrchu crochenwaith cegin gwyrdd yn hynod llwyddiannus am ddeng mlynedd arall.

Fodd bynnag, erbyn 1980 roedd Davies wedi penderfynu y dylai arbrofi i gyfeiriadau newydd yn ei waith, gan ei fod yn teimlo fod ei gynnrych mewn perygl o fod yn rhy ailadroddus ac undonog. Yn ogystal, roedd dirwasgiad ariannol blynyddoedd cynnar yr wythdegau yn effeithio ar werthiant crochenwaith. Gwelodd fod hyn yn gyfile delfrydol i dreulio chwe mis sabathol gyda'i deulu yn ardal y Dordogne. Yn ystod y cyfnod hwn caffodd gyfile i edrych yn feirniadol ar ei waith ac i ystyried syniadau a themâu newydd. Cododd odyn tân coed a 'llunio unrhyw ffuriau a ddymunai' a bu'n arbrofi gyda gwydreddau newydd. Roedd synhwyrusrwydd a

meddalwch hen jariau piclo a crochenwaith gwyddredd halen Ffrengig yn apelio ato. O'i gymharu, roedd yn dechrau gweld fod ei waith ei hun yn ymddangos 'yn rhy galed, hunanymwybodol, Seisnig a chanol oesol'. Mae'n cyfeirio at y cyfnod hwn yn ei fywyd fel un delfrydol, ac mae'n sicr i gyfoeth y profiad fod yn gyfrifol i raddau helaeth am y cyfeiriad newydd a welwyd yn ei waith.

Pan ddychwelodd i Loegr cafodd arddangosfa o waith y crochenwaith, Sutton Taylor, gryn effaith arno. Cafodd ei gyffroi'n arbennig gan y lliaws o 'liwiau pelydrol' y llwyddodd Taylor i'w cynhyrchu. Yn wir, dyna fu'n gyfrifol am ei benderfyniad mai liiw oedd yr allwedd i ddatblygiad ei waith. Roedd arno eisiau cynhyrchu crochenwaith 'gwbl ffres ei olwg a fyddai'n perfio ac yn canu'.

Ar ôl datblygu clai crochenwaith caled llyfn a gwyddreddau sylfaenol gwyn a hufen, cynhaliodd gannoedd o arbrofion i gynhyrchu gwyddreddau liiw a gwnaeth ddefnydd hefyd o ddau rysait gwyddredid a ddatblygwyd ar gyfer crochenwaith caled gan Janice Tchalenko. Wedi iddo gynhyrchu ystod o liwiau oedd wrth ei fodd, dechreuodd feddwl am ddewl weddaeth ac addurn. Byddai rhain yn elfenau sylfaenol mewn cynnyrch cwbl newydd. Cafodd ei ysbrydoli gan lyfr ar gelfyddyd werin America, i gychwyn gyda motif syml o afal, ond erbyn heddiw mae'n defnyddio ystod helaeth o batrymau a delweddu, a'i ateb pan ofynnir iddo beth fu'n gyfrifol am y dewis yw 'popeth ac unrhyw beth'. Rhoddodd y canolbwntydd hwn ar addurn a liiw ymdeimlad o ryddhad aruthrol iddo. Fodd bynnag, golygai hefyd gwtoogi ar amrywiaeth y llestri a gynhrchai, a gwelodd mai ffurfiau syml yjygiau, bowlenni a chwpanau a soseri mawr oedd y rhai delfrydol i'w defnyddio.

Mae Davies yn barod iawn i gydnabod ei ddyled i grochenyddion megis Janice Tchalenko, Alison Britton a Sutton Taylor, y mae eu dull o fawrygu liiw wedi ysbrydoli cymaint ar gynnyrch cerameg gyfoes. Mae'n egluro na fyddai ei ei hun wedi breuddwyd defnyddio liiw yn y saithdegau gan ei fod yn canolbwntio'n gyfangwbl ar ffurf. Fodd bynnag mae'n gwrt hawr yw awgrym ei fod wedi copio gwaith Janice Tchalenko, gan bwysleisio lle canolog ei syniadau a'i amcanion ei hun. Mae peintiadau llawer o artistiaid, gan gynnwys Emil Nolde, Bonnard a Matisse ac, wrth gwrs, crochenwaith o bob rhan o'r byd, wedi bod yn rhan o'i ysbrydiaeth.

Defnyddia odyn nwy fechan ac odyn olew llawer mwy, ond mae'n mynd i addasu'r odyn olew ar gyfer llosgi nwy oherwydd ei fod yn ei gael yn danwydd tyner sy'n hawdd ei reoli. Ac mae hynny'n bwysig iddo gan fod yn rhaid bod yn hynod o ofalus wrth danio'r clai crochenwaith caled cain y mae'n ei ddefnyddio.

Mae'n aelod o Gymdeithas y Crochenyddion Crefft ers 1973, ac yn gwasanaethu ar y panel dethol, ac yn aelod o Gymdeithas Crefftau Suffolk yn ogystal. Fodd bynnag, mae'n awyddus i beidio â threulio gormod o'i amser yn pwylgora gan ei bod yn llawer gwell ganddo galanbwntio ar gynhyrchu crochenwaith. J. K. Hill a Siop y Crochenyddion Crefft yn Llundain yw'r ddua le sefydlog lle mae'n gwerthu ei gynnyrch. Mae hefyd yn cyflawni galwadau siopau crefft rhanbarthol, ond mae'n gofidio oherwydd yr arfer o 'werthu neu ddychwel' a'r trafferthion mae hynny yn ei achosi i'r crefftwr.

Ar hyn o bryd, mae Davies yn teimlo ei fod yn gogwyddo mwy tuag at gynhyrchu eitemau unigol. Hoffai hefyd roi cynnig ar weithio ar raddfa llawer mwy, gan gynhyrchu gwaith cerflunio a fydd yn ei alluogi i ddatblygu ffurf a'i ddefnydd o addurn. Mae hefyd wedi lledaenu ei orwelion i gynhyrchu teiliau a chan ei fod newydd gwblhau un comisiwn, byddai'n croswau'r cyfle i baratuo ar gyfer cyntedd helaeth mewn adeilad newydd. Yn wahanol i'w crochenwaith, nid yw'r teiliau yn cael eu haddurno. Yn lle hynny mae wedi datblygu ystod ddehol o liwiau cynnes eu hansawdd, blawd ceirch, melyngoch, rhwd a glas llechen.

Mae'n egluro mai proses gyson o ddatblygiad yw crochenwaith, ac nid yw'n teimlo fod yn rhaid iddo fod yn gaeth i unrhyw idiom nac arddull. 'Pwy a wyr, efallai mai liiw du neu arian fydd yn mynd â fy mryd y flwyddyn nesaf — os daw rhywbeth i'm harwain i gyfeiriad arall, rydw i'n gwbl fodlon. Mae cymaint o bethau i'w gwneud.' Byddwn yn aros i weld ei waith newydd gyda chryn ddiddordeb.

*Mary Muir 1990*

